DRAFT

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, IONAWR 10FED 2019 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0101/19 - Presennol.

Yn y Gadair Maer, Cyng. Eric W. Roberts, Cynghorwyr , A. Williams, E. Gruffydd, M. Sol Owen, Parch Ioan Gruffydd, Dr Iwan Edgar, Ffiona Adams, M. Parry, D. O. Jones, Henry Rees Williams.

Clerc E. Price.
……..

Cof; - 0201/19 - Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr; Dylan Bullard, H. Underwood, Elin Hywel, Mici Plwm; E. J. Hughes.

……
Cof; - 0301/19 - Datgan Diddordeb.

Cyng. D. Bullard (rhif 11b).

……

Cof;-0401/19 - Cyflwyniad gan Terry Williams ar waith garddio Canolfan Hamdden.

Y Maer yn diolch am y cyflwyniad ar waith sydd yn cael ei wneud yn yr ardd ac annog iddo yrru cais am gymorth i archebu Polly Tunnel.

……
Cof;-0501/19 - Cyflwyniad gan Gareth Evens o Gyfoeth Naturiol Cymru.

Yn 2015 gwnaethpwyd gwaith ar yr Harbwr bach. Mae angen tystiolaeth a chaniatâd cyn gwneud gwaith.
Does dim tystiolaeth bod Hesg yn gwaethygu risg o lifogydd i'r dref. Mae'r Hesg yn yr Harbwr yn un arbennig sydd angen gwarchod.
Roedd trafodaeth ar orlifo yn cynnwys dal y dŵr yn uwch i fynnu mewn pyllau neu gaeau.
Mae Pwllheli yn uchel i fynnu ar gofrestr Cymuned mewn risg parthed gorlifo.
Roedd trafodaeth ar warchod Leidlys arbennig sydd yn y tref.

……..

Cof; - 0601/19 - Gair gan y Maer.

Adroddiad y Maer yn y llyfr cofnodion.
……..

Cof; - 0701/19 - Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

…….

Cof;- 0801/19 - Materion cyfansoddiadol a staff.

Cadarnhawyd penodiad y clerc.

……

Cof; - 0901/19 - Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr, 2018. fel rhai cywir

a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.

……..

Cof; - 1001/19 - Adroddiad clerc

Derbyniwyd yr adroddiad . Adroddiad yn y llyfr cofnodion.

Penderfynwyd cadw swm y praesept yr un fath a blwyddyn 2018-19

Penderfynwyd ar y Maer, dirprwy Faer presennol a phedwar cyn Maer fel aelodau is bwyllgor ariannol. Chwe aelod i'r Pwyllgor. Maer Eric Wyn Roberts, Dirprwy Maer Mici Plwm a Cyng. Michael Sol Owen, Henry Rees Williams Parch Ioan Gruffydd, M. Parry

Bydd pwyllgor ariannol nawr yn bwyllgor ariannol a busnes. Hefyd bydd yr aelodau yn eistedd ar y pwyllgor personel.

Penderfynu newid ebost y Cyngor i clerccyngortrefpwllheli@gmail.com

……..

Cof;- 1101/19 - Cynllunio.

a) C18/1137/45/HY- Arwyddion amrywiol, ASDA- e-bost wedi ei yrru i dynnu sylw bod angen y Gymraeg ar bob arwydd.

b) C18/1135/45/LL- Adeiladu cyfleusterau ystafelloedd newid a gwaith cysylltiol- tir ger Canolfan Hamdden Dwyfor- Cytuno.

c) C18/1166/45/LL Newid defnydd ac adeiladu sied i weithredu fel salon harddwch- Pulrose Motor Services LTD- Cytuno .

ch)C18/1198/45/AM Adeiladu 15 o dai annedd, gyda 5 i fod yn dai fforddiadwy cerbydol newydd a ffordd fynediad mewnol- Cytuno ond llythyru i dynnu sylw ar y traffic ychwanegol fydd ar lôn brysur.

……..

Cof;- 1201/19 - Cyng. Hefin Underwood am gyflwyno syniadau gwahanol ar twbiau blodau i`r dref.

Gohirio at cyfarfod Mis Chwefror.

……..

Cof;- 1301/19 - Cofnodion is bwyllgor ariannol.

Penderfynnu derbyn yr adroddiad.

…….
Cof; - 1401/19 - toiledau cyhoeddus y dref.

Penderfynu cyfrannu at dri thoiled sef; y maes, maes parcio Penlan a thoiled ger Caffi Melyn.

Penderfynu cytuno ar gontract dwy flwyddyn fel y gofynnir am gan Gyngor Sir.

……..

Cof;-1501/19 - Marchnad Sul Pwllheli.

Penderfynu llythyru i ofyn syt mae`r farchnad yn cael ei farchnata.

.....

Cof;-1601/19 - Lleoliad Penddelw Cynan.

Dal mewn trafodaeth gyda Neuadd Dwyfor.
.....

Cof;- 1701/19 - Canolfannau Iaith

Ymateb wedi ei roi yn cydnabod pwysigrwydd y canolfannau at gryfhau'r Iaith Cymraeg, ac yn erbyn unrhyw doriad i gyllid y canolfannau.

.....

Cof;- 1801/19 - Cais am gyfraniad ariannol gan Theatr Bara Caws. (adran 137).

Penderfynu cyfranu £200.
.....

Cof;- 1901/19 - arhosfa bysiau ASDA. Cyng. Dylan Bullard.

Gohirio tan y Cyngor nesaf.
.....

Cof;2001/19.

Llythyr ar y bwrdd parthed Fflat dwy loft llawr cyntaf 4 Pencei ar osod.
.....
Cof;- 2101/19.

Llythyr ar y bwrdd parthed cwmni newydd Byw`n Iach mae`r Cyngor Sir wedi ei sefydlu i redeg Canolfannau Hamdden.

Penderfynu derbyn y llythyr.

.....

Cof; - 2201/19.
Llythyr ar y bwrdd parthged Cynllyn llifogydd cymunedol Pwllheli. Cyng. Mike Parry yn adrodd bod angen rhagor o gwirfoddolwyr i`r cynllun.
……

Cof 2301/19.
Llythyr ar y bwrdd- adroddiad diweddariad Cynghorau cymuned a thref gan Lywodraeth Cymru.

Penderfynu derbyn yr adroddiad.
.....

Cof;-2412/18
Derbyniadau – cytunwyd.

250	Rhent Adams	CR
250	Rhent Adams	CR

Cof;-2512/18
Taliadau – cytunwyd.

456.81	Coeden Nadolig	203077
924	Atkin groundworks – gosod coeden Nadolig	203078
321.25	HMRC	203087
855.28	Costau gweinyddol rhedeg y siambr	sieciau
18	Argraffu printhouse	203079
1,000	Clwb peldroed Pwllheli	203080
15	Argraffu printhouse- tafleni gwybodaeth WI FI	203081
39.99	Siop Copi- shredder	203082
200.40	Argraffu printhouse- cardiau Nadolig	203083
360	Howard Bowcott – cynllunio gorchudd tram	203084
50	Arian parod	203085
159	Argraffdu printhouse- tafleni gwahoddiad cyfarfod cyhoeddus WI FI	203086
321.25	HMRC	203075
855.28	Costau gweinyddol rhedeg y siambr	sieciau

Daeth y Cyngor i ben am 8 30yh.

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 7 fed o Chwefror 2019.

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 30 Ionawr 2019.